Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Datblygwyr Datrysiadau Cysylltiol

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran:** | Gwasanaethau Digidol |
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwyr Datrysiadau Cysylltiol |
| **Adran/Pwnc:** | Datrysiadau Digidol |
| **Cyflog:** | Gradd 6 |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos. |
| **Contract:** | Swydd barhaol yw hon |
| **Lleoliad:** | Singleton / Hybrid |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Fel aelod o dîm datblygu datrysiadau, byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr technegol ar ddatblygu atebion technegol ar draws amrywiaeth o blatfformau a'u cyflwyno. Bydd yn rhaid i chi weithio gyda chydweithwyr ar draws sawl tîm i sicrhau bod y gofynion wedi'u deall. Bydd yn rhaid i chi weithio ar draws ystod eang o blatfformau a bod yn gyswllt ar gyfer cymorth ail linell.<br><br>Byddwch yn rhan o brosesau ystwyth gan gynnwys mireinio a chynllunio ôl-groniad. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | Fel Datblygwr Datrysiadau Cysylltiol, byddwch yn helpu i ddatblygu a rheoli atebion digidol. Byddwch yn canolbwyntio ar y cwsmeriaid, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu atebion sy'n cefnogi gweithgareddau a phrosesau'r Brifysgol.<br><br>**Yn y rôl hon, byddwch yn:**<br><br>1. Cynorthwyo gyda dylunio, datblygu a chefnogi datrysiadau sy'n seiliedig ar y cwmwl ac ar y campws.<br>2. Gweithredu fel cyswllt rhwng timau cymorth ail linell a thimau datblygu trydedd linell. Cynorthwyo gyda diagnosio a chywiro materion a nodwyd.<br>3. Gweithio ar draws timau datblygu i wella cyflwyno gwasanaethau.<br>4. Cynorthwyo gyda gweithgareddau cefnogi, gan gynnwys gweinyddu ymatebol a rhagweithiol.<br>5. Cymryd rhan mewn mentrau datblygu cymwysiadau.<br>6. Cyfrannu at sicrhau bod datrysiadau'n bodloni safonau ansawdd.<br>7. Gweithio yn y prosesau sicrhau ansawdd megis rheoli profion, rheoli newid, rheoli gweithgarwch rhyddhau a chymorth. Cymryd rhan wrth wella'r prosesau sicrhau ansawdd yn barhaus.<br>8. Cyflawni eich gweithgareddau gan ddefnyddio prosesau ac egwyddorion ystwyth wedi'u gwreiddio yn eich timau.<br>9. Ymgymryd â gwaith sydd wedi tarddu o'r biblinell, prosiectau a busnes fel arfer.<br>10. Cyfrannu at greu, adolygu a chynnal sylfeini gwybodaeth, i helpu i ymdrin â digwyddiadau parhaus neu ddatrys ceisiadau.<br>11. Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu data, hawlfraint a thrwyddedu, diogelwch, polisïau ariannol a rhai eraill y Brifysgol, a gweithdrefnau fel y bo'n briodol.<br>12. Parhau i geisio a gweithredu ar adborth i ddysgu a datblygu fel gweithiwr proffesiynol gan gymryd cyfrifoldeb am eich DPP eich hun a gweithredu fel model rôl i gydweithwyr. Chwilio |

| | |
|---|---|
| | am gyfleoedd i wella pobl a phrosesau'n barhaus, a disgwylir i'r holl staff TG ddatblygu er twf personol a phroffesiynol neu pan fydd angen gwneud hynny'n weithredol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | • Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>• Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>• Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd y Gyfadran/yr Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | • Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu atebion a gwasanaethau proffesiynol.<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>• TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu'n uwch (neu gyfwerth)<br>• Cymhwyster TG Lefel 3 neu uwch<br><br>**Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau:**<br><br>• Profiad o weithio mewn disgyblaeth sy'n ymwneud â TG<br>• Profiad o weithio fel aelod o dimau ac ar draws timau i ysgogi a chefnogi cydweithwyr, datrys ymholiadau gan gwsmeriaid a chyflawni amcanion tîm.<br>• Gwybodaeth gyfredol am ystod eang o gymwysiadau neu offer a thechnegau datblygu |

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus i ddeall tueddiadau ac arloesi yn y diwydiant
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Y gallu i nodi gofynion technegol yn gywir, gan ddefnyddio prosesau safonol y gellir eu hailadrodd
- Dangos y gallu i ddatrys problemau mewn modd creadigol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau i ddod o hyd i ateb.
- Tystiolaeth o’r gallu i weithio gyda thechnoleg mewn ffordd gywir a hyderus.
- Tystiolaeth o’r gallu i weithio ar sawl tasg ar yr un pryd, gan weithio ar draws sianeli cyswllt, gan gynnig cymorth mewn sawl lleoliad i gwsmeriaid ag anghenion amrywiol.
- Y gallu i gefnogi gwelliant parhaus.

**Meini Prawf Dymunol:**

- Gallu cyfathrebu yn Gymraeg
- ITIL v3 neu Foundation v4
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a defnyddio sgiliau proffesiynol perthnasol
- Profiad o weithio mewn amgylchedd ystwyth

**Y Gymraeg:**
Lefel 1 – ‘ychydig’ (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)

*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau.Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

**Gwybodaeth Ychwanegol**